

Ffurflen Ymateb i Ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (os yn berthnasol): UCAC (Undeb
Cenedlaethol Athrawon Cymru)

E-bost / Rhif ffôn:

rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais,
Aberystwyth SY23 2EU

Cwestiwn 1: Mae'r cynllun cyflawni'n parhau i roi pwyslais mawr ar wella iechyd meddwl a llesiant pobl o bobl oed. Fyddech chi'n cytuno â'r egwyddor hon?

Byddwn ✓	Yn rhannol	Na fyddwn
----------	------------	-----------

Cwestiwn 2: Oes modd i chi roi rhagor o sylwadau am yr hyn sy'n gweithio'n dda yn eich barn chi, neu fannau sydd angen pwyslais gwahanol?

Wrth drafod yr 'ymagwedd ysgol gyfan' teimlwn y byddai'n werth sicrhau pwyslais nid yn unig ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc, ond yn ogystal ar iechyd meddwl staff. Mae'n gyfle rhy dda i golli – i sicrhau bod y pwyslais ar iechyd meddwl, dealltwriaeth a chefnogaeth i *bob aelod* o gymuned yr ysgol.

Mae staff ysgol, ac athrawon yn arbennig, yn gallu dioddef problemau iechyd meddwl difrifol yn sgil eu gwaith – yn rhannol o ganlyniad i lwyth gwaith affwysol, ond hefyd o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn ymdrin â phlant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl. Gall hyn arwain at absenoldebau hirdymor, ymddeoliad ar sail tor-iechyd, neu rhoi'r gorau i'r proffesiwn.

O fewn y cynllun cyflawni, mae nifer o feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, sef:

- Atal iechyd meddwl gwael a chynnal lles meddyliol
- Gwellu mynediad at gymorth ar gyfer lles iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc
- Gwelliannau pellach i ddarpariaeth argyfwng a thu allan i oriau i blant ac oedolion
- Gwellu mynediad, ansawdd ac ystod therapiau seicolegol ar draws pob oedran
- Gwellu ansawdd a mynediad at wasanaethau iechyd meddwl amenedigol
- Gwellu ansawdd a mynediad at wasanaethau wrth ddatblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar adferiad
- Cefnogi grwpiau agored i niwed

Cwestiwn 3: Ydy'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn gywir, yn eich barn chi? Ydyn nhw'n addas i'r diben?

Ydyn ✓	Yn rhannol	Nac ydyn
--------	------------	----------

Cwestiwn 4: Oes modd i chi roi rhagor o wybodaeth i gefnogi'ch ateb, megis eich rhesymau dros gredu bod y meysydd blaenoriaeth yn briodol neu awgrymu pa feysydd allweddol neu newidiadau ychwanegol yr hoffech eu gweld?

--

Yn ogystal â'r meysydd blaenoriaeth, mae nifer o ffrydiau gwaith trosfwaol y bydd angen eu blaenoriaethu hefyd, ond byddant yn parhau y tu hwnt i oes y cynllun hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweithredu'r set ddata graidd i wella cysondeb, cadernid a'r ffocws ar ganlyniadau ar draws gwasanaethau iechedd meddwl pob oed.
- Datblygu cynllun gweithlu mewn partneriaeth â Rhwydwaith Iechyd Meddwl y GIG ac Addysg a Gwellu Iechyd Cymru i gefnogi gwelliannau i wasanaethau yn y tymor canolig a'r hirdymor ac i sicrhau gweithlu iechedd meddwl sefydlog a chynaliadwy.
- Cryfhau ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaethau a'r trydydd sector ar draws gwelliannau i bolisi a gwasanaeth
- Gwellu mynediad at wasanaethau iechedd meddwl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno fod y rhain yn flaenoriaethau priodol?

Ydw ✓	Yn rhannol	Nac ydw
-------	------------	---------

Cwestiwn 6: Oes modd i chi roi rhagor o wybodaeth i gefnogi'ch ateb, megis eich rhesymau dros gredu y dylid rhoi blaenoriaeth i'r ffrydiau gwaith hyn neu awgrymu pa ffrydiau gwaith neu newidiadau ychwanegol yr hoffech eu gweld?

Rydym yn croesawu'n arbennig y ffrwd gwaith trosfwaol sy'n ymwneud â gwellu mynediad at wasanaethau iechedd meddwl trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae bylchau a diffygion anferth wedi bod yn y gwasanaethau hyn dros y blynyddoedd – ac os oes unrhyw faes ble mae'r gallu i gael mynediad at wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn gwbl greiddiol i effeithlonrwydd y gwasanaeth, dyma fe. Pan mae pobl yn fregus, a phan mae'r mater dan sylw yn gallu bod mor sensitif a phersonol, mae cael gwasanaeth yn yr iaith mae'r person fwyaf cyffyrddus yn ei siarad yn allweddol. Gall gwneud y gwahaniaeth rhwng bod yn fodlon derbyn cefnogaeth (yn arbennig therapïau siarad/therapiwtig) neu beidio.

Cwestiwn 7: O fewn pob thema allweddol, rydym wedi nodi nifer o bwyntiau gweithredu a cherrig milltir allweddol. Ydych chi'n teimlo mai'r rhai sydd wedi eu nodi yw'r rhai cywir?

Mae UCAC yn croesawu'n arbennig y pwyslais ar:

- addasiadau i bolisiau ac ymarfer Adnoddau Dynol i sicrhau y gall unigolion â phroblemau iechyd meddwl gadw'u swyddi/manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth
- rhoi cefnogaeth i athrawon a staff eraill ysgolion (yn enwedig cynorthwyr dosbarth) i adnabod anghenion plant a phobl ifanc, a'u harfogi i wybod sut i ymateb yn briodol – naill ai drwy roi rhywfaint o gefnogaeth o fewn systemau'r ysgol, neu drwy atgyfeirio; mae rhoi'r hyder i staff ysgol i ymateb yn briodol yn greiddiol i wella'r sefyllfa i bawb; croesawn yn fawr y bwriad i ddatblygu pecynnau hyfforddi pwrpasol wedi'u targedu at wahanol rolau staff ysgol, gan gynnwys gweithio gyda'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol i ddatblygu hyfforddiant wedi'i achredu ar gyfer arweinwyr ysgol, a modiwl(au) ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon
- pwyslais ar weithio amlasiantaethol, a sicrhau bod y cysylltiadau rhwng ysgolion ac asiantaethau eraill yn agos ac effeithiol; mae llawer o'r materion iechyd meddwl sy'n codi yn rhy ddwys a chymhleth i ysgolion ymdrin â nhw ar eu pennau eu hunain; mae wir angen yr asiantaethau a gwasanaethau allanol i weithio law yn llaw ag addysg; mae'r pwyslais ar 'rolau a chyfrifoldebau clir' yn arbennig o werthfawr; mae'r peilot Mewngymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn llwybr addawol sy'n werth ei ddilyn a'i ddatblygu ymhellach, ar sail unrhyw wersi a ddysgwyd o'r cyfnod gweithredu cynnar
- mae UCAC yn arbennig o falch o weld y cyfeiriad at y 'canol coll' ac at ymdrechion i sicrhau mynediad at gymorth therapiwtig neu 'lefel is' i'r sawl nad ydynt yn gymwys ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed; mae hyn yn fater sy'n codi'n aml fel mater o bryder gan aelodau
- alinio gyda fframwaith hunanwerthuso Estyn – bydd hyn yn gymhelliad pwysig i sicrhau bod systemau priodol yn cael eu mabwysiadu a'u datblygu dros amser

Cwestiwn 8: Os ydych chi'n teimlo bod unrhyw bwyntiau gweithredu neu gerrig milltir allweddol ar goll, allwch chi ddweud wrthym beth rydych chi'n teimlo sydd ar goll a beth fydddech chi'n argymhell y dylem ei ychwanegu?

Er bod Blaenoriaeth 2 yn ymwneud yn benodol â llesiant iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, byddai'n dda gweld rhagor o gyfeiriadau at iechyd meddwl a llesiant staff ysgol – mae hyn yn cydweddu'n dda iawn gyda'r 'ymagwedd ysgol gyfan' sydd â'r bwriad o wella iechyd meddwl, dealltwriaeth a chefnogaeth i *bob aelod* o gymuned yr ysgol. Mae sgil-effeithiau ar staff ysgol i fod yn ymdrin â phlant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl – ac nid ydynt wedi derbyn unrhyw hyfforddiant ynghylch sut i ymdopi â hynny o safbwynt sut i gefnogi'r plant a phobl ifanc, ond yn ogystal o ran sut i ofalu am eu iechyd meddwl eu hunain wrth ymwneud â materion mor ddwys a difrifol. Mae mater iechyd meddwl yn sgil

llwyth gwaith llethol yn agwedd arall ar yr hyn sydd angen sylw mewn ysgolion.

Cwestiwn 9: Yn eich barn chi, ydy'r Cynllun Cyflawni arfaethedig yn cysylltu'n dda gyda meysydd polisi a gwasanaeth eraill?

Ydy	Yn rhannol	Nac ydy
-----	------------	---------

Cwestiwn 10: Oes modd i chi roi rhagor o sylwadau am fannau lle mae'r Cynllun Cyflawni yn cysylltu'n dda gyda meysydd polisi a gwasanaeth eraill yn eich barn chi, a dweud wrthym sut y gallai'r Cynllun gysylltu'n well gyda meysydd eraill?

Mae'r Cynllun Cyflawni yn cyfeirio at gydweithio rhwng ysgolion a gwasanaethau allanol eraill (iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac ati). Mae hyn yn faes mae dirfawr angen ei ddatblygu. Mae llawer o'r materion iechyd meddwl sy'n codi mewn ysgolion yn rhy ddwys i ysgolion ymdrin â nhw ar eu pennau eu hunain ac mae wir angen sicrhau, mewn modd ganolog, cyson a systemig, bod asiantaethau a gwasanaethau allanol yn gweithio law yn llaw ag addysg.

Rhaid sicrhau llwybrau, systemau, rolau a chyfrifoldebau clir, fel bod pawb yn hyderus ynghylch yr opsiynau sydd ar gael, a'r camau ac amserlenni priodol.

Cwestiwn 11: Yn eich barn chi, pa elfennau o'r Cynllun Cyflawni arfaethedig sydd fwyaf tebygol o gael yr effaith fwyaf?

--

Hoffem wybod eich barn ar effeithiau Cynllun Cyflawni 2019-22, 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl,' ar y Gymraeg, ac yn benodol ar y cyfle i bobl ddefnyddio'r iaith a bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin heb unrhyw ffafriaeth.

Cwestiwn 12: Pa effeithiau ydych chi'n meddwl y gallai fod? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu sut gellid lliniaru effeithiau negyddol?

Os caiff y ffrwd gwaith trosfwaol 'gwella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl trwy gyfrwng y Gymraeg' ei weithredu'n fwriadus, mi allai wneud gwahaniaeth sylweddol a gwerthfawr iawn i allu pobl i gael mynediad at wasanaethau – ac at eu parodrwydd i gyrchu'r gwasanaethau yn y lle cyntaf. Bydd datblygu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg yn ganolog i lwyddiant y ffrwd gwaith hon, a sicrhau bod unrhyw wasanaethau sydd ar gael yn cael eu cynnig mewn modd 'rhagweithiol', nid yn aros i bobl gofyn amdanynt.

Cwestiwn 13: A wnewch chi egluro sut rydych chi'n credu y gellid newid y cynllun cyflawni arfaethedig fel ei fod yn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu gynnydd mewn effeithiau cadarnhaol mewn perthynas â rhoi cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a bod y Gymraeg a'r

Saesneg yn cael eu trin heb unrhyw ffafriaeth.

- sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac nad yw'r Saesneg yn cael unrhyw ffafriaeth dros y Gymraeg.

Cwestiwn 14: Ydych chi'n meddwl y bydd y camau gweithredu sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun cyflawni yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig canlynol:-

- Anabledd
- Hil
- Rhywedd ac ailbennu rhywedd
- Oedran
- Crefydd a chred a dim cred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Hawliau Dynol
- Plant a phobl ifanc

Ydw	Yn rhannol	Nac ydw
-----	------------	---------

Cwestiwn 15: Oes modd i chi roi rhagor o wybodaeth am sut bydd y camau gweithredu hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, neu ble y gellid gwneud gwelliannau yn eich barn chi?

Cwestiwn 16: Rydym wedi gofyn cyfres o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol i'w trafod sydd ddim wedi eu crybwyll yn benodol, defnyddiwch y gofod isod i roi gwybod i ni:

Rhowch y testun yma:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi'n gyhoeddus, ar y we neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch yma: